GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

caring for each other · working together · always improving

# Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru

## Cadw Ffrwythlondeb i Bobl Traws a Rhywedd Amrywiol

### Gwybodaeth i gleifion

Swansea Bay UHB LGBT+ & Allies Network - CALON -

Beth a phwy yw Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru?

Mae Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru (SFfC) yn wasanaeth dau safle wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn darparu ymgynghoriadau a thriniaethau ffrwythlondeb arbenigol gan gynnwys cadw ffrwythlondeb. Rydym yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sy'n byw yn unrhyw le yng Nghymru.

Mae Canolfan Hewitt yn Ysbyty Menywod Lerpwl a Chanolfan Ffrwythlondeb Swydd Amwythig a Chanolbarth Cymru ym Mhentref Iechyd Severn Fields yn Amwythig hefyd yn darparu gwasanaeth cadw ffrwythlondeb i gleifion o Gymru. Os ydych yn byw yng Ngogledd Cymru, mae'n debyg y cewch eich gweld yn Lerpwl ac os ydych yn byw yng Nghanolbarth Cymru byddwch yn cael gofal yn Amwythig.

Beth yw Cadw Ffrwythlondeb?

Cadw ffrwythlondeb yw storio wyau, sberm neu embryonau. Mae hwn yn wasanaeth rydym yn ei gynnig gan wybod bod rhywun yn mynd i ddod yn anffrwythlon yn rhy gynnar. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fydd angen triniaeth feddygol ar rywun gan ddefnyddio meddyginiaethau y gwyddys eu bod yn cael effaith negyddol neu wenwynig ar wyau a sberm neu lawdriniaeth a allai achosi anffrwythlondeb.

Oes cost am gadw ffrwythlondeb?

Yng Nghymru, mae Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) yn ariannu gwasanaethau cadw ffrwythlondeb ar gyfer pobl sy'n dechrau meddyginiaeth neu lawdriniaeth cadarnhau rhywedd am i fyny at 55 mlynedd yn ôl y ddeddfwriaeth newydd. Bydd angen ailgadarnhau eich cydsyniad i gadw eich wyau neu eich sberm wedi eu storio bob 10 mlynedd. Byddwn yn cysylltu â chi drwy'r post er mwyn caffael y cysyniad hwnnw. Felly, mae'n bwysig iawn sicrhau fod eich cofnodion GIG bob amser yn adlewyrchu eich cyfeiriad cyfredol.

Ydy Cadw Ffrwythlondeb yn berthnasol i mi?

Ni fydd pob unigolyn traws a rhywedd amrywiol yn teimlo bod angen ymyrraeth feddygol arnynt i newid rhywedd. I'r rhai sy'n bwriadu cael

hormonau sy'n cadarnhau rhywedd a/neu ymyrraeth lawfeddygol i gael gwared ar y ceilliau neu'r groth/ofarïau, gall y triniaethau hyn arwain at golli ffrwythlondeb. Rydym yn deall efallai na fydd cael teulu yn rhywbeth rydych yn ei ystyried ar hyn o bryd, ond mae cymryd camau i gadw eich ffrwythlondeb yn cynnig y posibilrwydd o gael eich plant biolegol eich hun yn y dyfodol.

Er mwyn eich helpu trwy'r broses o wneud penderfyniad cytbwys, rydym wedi cynhyrchu'r pamffled hwn i'ch helpu i ddeall y broses. Rydym bob amser ar gael os hoffech siarad â ni, ac mae gennym y profiad a'r arbenigedd i'ch helpu i wneud y penderfyniadau pwysig hyn. Gallai hyn deimlo'n anghyfforddus ar y dechrau ond nid oes angen teimlo'n bryderus; bydd y staff yno i'ch helpu.

Glasoed, Atalyddion Glasoed a Therapïau Hormonau

Gall atalyddion glasoed (a elwir hefyd yn wrth-androgenau) gael eu cymryd gan bobl iau nad ydynt eto wedi symud ymlaen yn llawn trwy'r glasoed. Maent yn caniatáu amser ychwanegol i rywun ddysgu amdano'i hun cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Mae modd dadwneud yr effaith atal ac ar ôl ei stopio gall y corff naill ai fynd trwy'r glasoed yn naturiol neu gellir dechrau hormonau sy'n cadarnhau rhywedd. Ni chynhyrchir wyau a sberm heb i'r corff fynd trwy'r glasoed. Os nad ydych wedi bod trwy'r glasoed eto, mae posibilrwydd o storio meinwe ofarïaidd neu geilliol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dal i fod yn weithdrefnau arbrofol ac nid ydynt ar gael yng Nghymru eto.

Mae therapïau hormonau yn cynnwys cymryd estrogen (hormon benywaidd) neu destosteron (hormon gwrywaidd). Bydd y rhain yn diystyru'r hormonau naturiol a wneir gan eich corff a byddant yn cyfyngu ar gynhyrchu wyau a sberm. Po hiraf y cymerwch yr hormonau, y mwyaf tebygol yw hi y byddwch yn colli ffrwythlondeb yn llwyr. Mae rhai pobl yn adennill eu ffrwythlondeb pan fyddant yn rhoi'r gorau i gymryd hormonau ond ni ellir gwarantu hyn byth. Mae rhoi'r gorau i therapi hormonau ar ôl dechrau'r therapi yn gallu bod braidd yn frawychus, felly mae'n ddigon posibl mai cadw ffrwythlondeb fyddai'r opsiwn gorau cyn dechrau'r driniaeth hon. Os ydych eisoes yn cymryd hormonau byddem yn argymell rhoi'r gorau i'w cymryd cyn eich apwyntiad storio. Fel arfer, yn achos storio sberm byddai hyn yn bedwar mis, ac yn achos storio wyau byddai hyn nes bod y mislif wedi ailddechrau.

Wales Fertility Institute

## Mythau Therapi Hormonau

Cofiwch nad yw therapi hormonau yn golygu na fyddwch yn gallu beichiogi'n naturiol. Gall cyfathrach drwy'r wain arwain at feichiogrwydd pan fydd un neu'r ddau bartner yn cymryd hormonau. Os nad ydych yn ceisio beichiogi argymhellir eich bod yn defnyddio dulliau atal cenhedlu.

## Triniaethau llawfeddygol a sut y byddant yn effeithio ar eich ffrwythlondeb

Os ydych wedi penderfynu cael llawdriniaeth ailbennu rhywedd, mae nifer o opsiynau ar gael. Bydd y llawdriniaeth a gewch yn pennu'r ffordd orau y gallwn eich helpu, p'un ai yw'n cael teulu cyn eich llawdriniaeth neu gadw'ch ffrwythlondeb ar gyfer y dyfodol.

Os ydych yn ddyn traws neu'n unigolyn anneuaidd a gafodd ei bennu'n fenyw adeg genedigaeth, bydd y gweithdrefnau canlynol yn effeithio ar eich ffrwythlondeb:

Salpingo-Oofforectomi: Dyma lawdriniaeth i gael gwared ar y tiwbiau ffalopaidd a'r ofarïau. Mae'r ofarïau yn cynhyrchu wyau ac mae'r tiwbiau ffalopaidd yn cludo'r wyau i'r groth. Er mwyn cadw ffrwythlondeb, byddai angen i ni gasglu a storio'r wyau cyn i'r ofarïau gael eu tynnu.

Hysterectomi: Dyma lawdriniaeth i gael gwared ar y groth. Y groth yw lle mae'r embryo yn mewnblannu a lle mae'r beichiogrwydd yn cael ei gario. Os dewiswch gael hysterectomi, unwaith eto byddai angen i ni gasglu a storio'r wyau cyn eich llawdriniaeth. Mae'n dal yn bosibl cael triniaeth ffrwythlondeb i geisio cael eich plentyn biolegol eich hun. Gellir cyflawni hyn os oes gennych bartner â chroth neu drwy ddefnyddio mam fenthyg.

Ar gyfer menywod traws neu bobl anneuaidd a bennwyd yn wryw adeg genedigaeth, bydd unrhyw lawdriniaeth is a gewch bron yn bendant yn golygu cael gwared ar y ceilliau, gelwir hyn yn Orcidectomi. Yn y ceilliau mae sberm yn cael ei gynhyrchu. Gallwn gadw'ch ffrwythlondeb trwy rewi sampl o semen cyn gwneud hyn.

## Beth mae Cadw Ffrwythlondeb yn ei gynnwys?

Os ydych yn teimlo bod cadw ffrwythlondeb yn rhywbeth yr hoffech ei ddilyn bydd eich meddyg teulu yn eich cyfeirio at SFfC. Byddwch yn ymgynghori ag un o'n harbenigwyr i bersonoli'ch opsiynau triniaeth. Bydd

angen i ni gymryd samplau o waed ac wrin. Bydd pawb sy'n cael triniaeth ffrwythlondeb yn cael eu sgrinio fel gweithdrefn safonol. Mae angen sgrinio i sicrhau nad oes clefyd heintus yn cael ei drosglwyddo i samplau eraill sydd gennym wrth eu storio nac i bartner/mam fenthyg/plentyn os dewch drwodd i gael triniaeth. Mae sgrinio hefyd yn digwydd oherwydd gall rhai o'r afiechydon hyn gael effaith niweidiol ar y babanod sy'n datblygu. Byddwn yn eich sgrinio fel rhoddwr – bydd hyn yn rhoi modd i chi gael opsiwn o ddefnyddio mam fenthyg yn y dyfodol os bydd angen. Mae hyn yn golygu y cewch eich profi am y canlynol:

- HIV (Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol)
- Hepatitis B
- Hepatitis C
- Syffilis
- Clamydia
- Gonorrhoea
- HTLV (Feirws T-Lymffotropig Dynol)
- CMV (Cytomegalofirws)

Efallai y bydd rhai pobl eisoes yn gwybod eu statws sgrinio. Os yw'r cyfan yn negyddol, gallwn dderbyn y canlyniadau hyn ar yr amod ein bod yn derbyn copïau gyda'ch atgyfeiriad ac y gallwn gynnal yr apwyntiad(au) storio o fewn 3 mis i ddyddiad y prawf. Ar gyfer profion a berfformiwyd dros 3 mis yn ôl, bydd angen sgrinio eto.

Os ydych yn gwybod eich bod yn bositif neu os yw'ch canlyniadau'n cael eu dychwelyd fel rhai positif ar gyfer HIV, Hep B, Hep C neu HTLV gallai eich atgyfeiriwr gynnig atgyfeiriad i chi i ganolfan arall sy'n gallu cynnig y gwasanaeth hwn. Bydd cais cyllid claf unigol yn cael ei wneud i WHSSC ar gyfer trosglwyddo arian y GIG. Yn anffodus nid oes gan SFfC gyfleusterau storio ar gyfer cleifion sero-bositif.

Pe baech yn profi'n bositif am syffilis, gonorrhoea neu glamydia byddem yn gallu gohirio storio nes eich bod wedi cwblhau cwrs triniaeth.

Yn dibynnu ar eich cefndir ethnig, eich hanes teithio diweddar neu a gawsoch eich magu mewn gwlad arall, efallai y bydd profion ychwanegol yn cael eu perfformio hefyd.

Wales Fertility Institute

Rhewi Sberm

Sylwch, dim ond yn SFfC Caerdydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru y mae Rhewi Sberm yn cael ei wneud.

Os bydd popeth yn mynd yn dda yn ystod y sgrinio, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad rhewi sberm. Mae ystafell aros fach yn y clinig lle bydd pobl eraill yn aros efallai. Bydd un o'r tîm Embryoleg yn eich cyfarch wrth eich enw a mynd â chi i ystafell ymgynghori. Yn ystod yr apwyntiad byddwn yn trafod y broses storio gyda chi ac yn eich cynorthwyo i lenwi ffurflenni caniatâd HFEA (Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg) a ffurflenni caniatâd SFfC. Gofynnir i chi gynhyrchu sampl o semen trwy fastyrbio. Mae gennym ystafelloedd preifat pwrpasol at y diben hwn. Rydym yn deall y gall rhai pobl brofi dysfforia am eu organau cenhedlu neu gall effaith hormonau olygu bod cynhyrchu sampl yn anoddach. O dan yr amgylchiadau hyn, gallwn drefnu i chi gynhyrchu sampl gartref. Gall hyn ddibynnu ar ble rydych yn byw gan fod angen i'r labordy dderbyn y sampl o fewn amserlen addas.

Byddwn yn eich ffonio yn ddiweddarach yn y dydd i roi gwybod i chi am ansawdd eich sampl ac, os oes angen, yn cynnig apwyntiad arall i chi. Nid oes gan rai pobl unrhyw sberm yn eu sampl, gelwir hyn yn aswsbermia. Os felly, ni fyddem yn gallu ei storio. Os yw wedi'i nodi'n glinigol, gallwn drefnu atgyfeiriad i gael llawdriniaeth i gymryd biopsïau o'r ceilliau a chwilio am gelloedd sberm yn y feinwe hon. Os byddwn yn dod o hyd i sberm, hyd yn oed niferoedd isel iawn, gallwn rewi'r feinwe a baratowyd.

Tycio

Os ydych yn ymarfer tycio (gwthio'r ceilliau yn ôl i fyny i'r corff) a hoffech gadw'ch ffrwythlondeb, byddem yn argymell peidio â thycio am bedwar mis cyn eich apwyntiad. Mae angen tymheredd is na thymheredd y corff i gynhyrchu sberm. Os caiff y ceilliau eu gwthio i'r corff gall hyn effeithio ar gynhyrchu sberm.

Wales Fertility Institute

Risgiau rhewi sberm

Yn gyffredinol, mae samplau sberm yn goroesi'r broses rewi/dadmer yn dda. Bydd gostyngiad mewn ansawdd bob amser ar ôl dadmer gan na fydd pob cell sberm yn goroesi'r broses. Mae rhai samplau wedi goroesi yn well nag eraill ond mae'n amhosibl rhagweld hyn. Bydd y math o driniaeth sy'n addas ar gyfer y sampl yn pennu sut mae'r sampl yn goroesi. Fel y soniwyd uchod, mae technegau ar gael ar gyfer niferoedd isel iawn o sberm.

Mae defnyddio sberm wedi'i rewi yr un mor llwyddiannus â defnyddio sberm ffres ac nid oes tystiolaeth o annormaleddau cynyddol na phroblemau dilynol mewn plant sy'n cael eu geni gan ddefnyddio sberm wedi'i rewi yn lle sberm ffres.

Storio wyau

Sylwch, gellir storio wyau yn SFfC Caerdydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru neu yn SFfC Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn dibynnu ar ble rydych yn byw er eich hwylustod.

Mae'r cylch triniaeth i gasglu wyau yn dechrau trwy gymryd pigiadau hormonau ffrwythlondeb am rhwng 8-14 diwrnod. Mae'r dos a'r nifer o ddiwrnodau rydych yn eu cymryd yn seiliedig ar amgylchiadau unigol. Mae'r hormonau'n ysgogi'r ofarïau i gynhyrchu wyau. Mae datblygiad yr wyau yn cael ei fonitro gan gyfres o sganiau uwchsain o'r wain/twll blaen. Pan fyddant yn barod, bydd chwistrelliad pellach o hormon gwahanol i helpu'r wyau i aeddfedu cyn casglu wyau. Cewch eich tawelyddu ar gyfer y weithdrefn casglu wyau ac mae hyn yn golygu gosod nodwydd trwy'r wain/twll blaen i gasglu'r wyau o'u ffoliglau ar yr ofarïau.

Risgiau Casglu Wyau

Gan fod hon yn weithdrefn lawfeddygol byddwn yn ei thrafod yn fanwl yn eich apwyntiad cadw ffrwythlondeb.

Wales Fertility Institute

Beth yw'r siawns o gael baban gan ddefnyddio wyau wedi'u rhewi?

Mae'n hysbys nad yw wyau yn ymateb yn dda i rewi. Fodd bynnag, dangoswyd yn ddiweddar bod gwydreiddio (dull cymharol newydd o rewi) yn gwella'r siawns y bydd wyau'n goroesi o'r broses rhewi-dadmer ac felly'n cynyddu'r gyfradd llwyddo. Ni fydd pob wy yn goroesi'r broses rewi a dadmer nac yn cael ei ffrwythloni.

Mae'r siawns o feichiogrwydd gan ddefnyddio wyau wedi'u rhewi yn is o gymharu â defnyddio wyau ffres. Mae rhewi wyau yn dal i fod yn dechneg gymharol newydd ac mae'n cyfrif am lai na 2% o driniaethau ffrwythlondeb ledled y DU. Fodd bynnag, mae nifer y cylchoedd rhewi wyau yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae nifer y cylchoedd dadmer wyau yn is ac felly mae llai o bobl yn dychwelyd i gael triniaeth neu maen nhw heb benderfynu a ddylid defnyddio eu hwyau eto. O ystyried y niferoedd isel, mae'n fwy anodd rhagweld y siawns o gael cylch llwyddiannus. Y ffigurau diweddaraf gan HFEA yw:

Yn y DU yn 2016, roedd 18% o gylchoedd triniaeth oedd yn defnyddio wyau wedi'u rhewi y claf ei hun yn llwyddiannus. Mewn gwir niferoedd, ganwyd 39 o fabanod yn 2016 o wyau wedi'u rhewi y cleifion eu hunain.

Storio Embryonau

Mae hyn yn cynnwys defnyddio'ch wyau neu'ch sberm ffres a chreu embryonau gan ddefnyddio wyau ffres neu sberm gan eich partner neu gan roddwr. Byddai'r embryonau wedyn yn cael eu tyfu yn y labordy am dri i bum diwrnod, bydd embryonau o ansawdd da yn cael eu dewis i'w rhewi. Ar ddiwrnod tri bydd gan yr embryonau tua 6-8 o gelloedd. Ar ddiwrnod pump bydd ganddynt dros 100 o gelloedd. Rhoddir yr embryonau mewn toddiant gwrthrewol sy'n amddiffyn y celloedd rhag difrod yn ystod y broses rewi a dadmer. Rhoddir yr embryonau yn unigol ar eu gwellt eu hunain a'u suddo mewn nitrogen hylifol mewn dull rhewi cyflym o'r enw 'gwydreiddio'. Mae embryonau yn goroesi'r broses hon yn dda iawn. Pan fyddwch yn barod i ddechrau teulu byddem yn anelu at ddadmer a throsglwyddo un embryo fesul cylch er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd lluosog.

Wales Fertility Institute

Risgiau storio embryonau

Nid yw pob embryo yn addas i'w rewi, mewn achosion prin efallai na fydd unrhyw beth addas i'w rewi ar gyfer eich triniaeth.

Mae cyfraddau goroesi yn uchel yn dilyn rhewi a dadmer ond ni fydd pob embryo yn goroesi'r broses. Yn achlysurol iawn gall hyn olygu nad oes embryonau sy'n goroesi ar gyfer triniaeth.

Beth yw'r siawns o gael baban gan ddefnyddio embryonau wedi'u rhewi?

Erbyn hyn, mae'r gyfradd llwyddo beichiogrwydd gan ddefnyddio embryonau wedi'u rhewi yn debyg i'r gyfradd sy'n defnyddio embryonau ffres. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod plant a anwyd o ganlyniad i embryonau wedi'u rhewi yn fwy tebygol o ddioddef annormaleddau na'r plant a anwyd o embryonau ffres.

Am ba mor hir y gellir storio fy wyau, fy sberm neu fy embryonau?

Chi sy'n rheoli pa mor hir yr hoffech storio'ch wyau, eich sberm neu'ch embryonau. Gallwch ddewis storio am flwyddyn i hyd at 55 mlynedd. Y cyfnod storio statudol yw 10 mlynedd ond gellir ymestyn hyn am hyd at 55 mlynedd os ydych yn debygol o ddod yn anffrwythlon cyn pryd. Bydd yr amod hwn yn cael ei fodloni os ydych yn mynd i ddechrau therapi hormonau neu gael llawdriniaeth cadarnhau rhywedd. Fodd bynnag, bydd angen i ymarferydd meddygol adolygu'ch achos bob 10 mlynedd i gadarnhau eich bod yn dal i fod yn gymwys, h.y. rydych yn dal i fod yn anffrwythlon cyn pryd neu rydych yn dal i fod yn debygol o ddod yn anffrwythlon cyn pryd neu os yw'ch partner/yr unigolyn sydd wedi cael y gametau yn anffrwythlon.

Byddwn yn cysylltu â chi flwyddyn cyn i'ch caniatâd i storio ddod i ben. Bydd hyn yn rhoi amser i chi ystyried yr hyn yr hoffech ei wneud nesaf. Byddai'r opsiynau'n cynnwys ymestyn eich caniatâd i storio, defnyddio'ch gametau neu'ch embryonau mewn triniaeth neu efallai y byddwch yn penderfynu nad ydych chi am iddynt gael eu storio mwyach. Gallwch drefnu apwyntiad i drafod eich holl opsiynau.

**SICRHEWCH EICH BOD YN RHOI GWYBOD I NI AM UNRHYW NEWIDIADAU I'CH CYFEIRIAD NEU'CH RHIF FFÔN**

Os na allwn gysylltu â chi, efallai y bydd rhaid i ni daflu eich gametau neu'ch embryonau oherwydd mae yn erbyn y gyfraith i ni eu cadw mewn storfa heb eich caniatâd.

## Beth yw'r cam nesaf?

Er mwyn mynd ati i storio'ch wyau neu'ch sberm, yn gyntaf bydd rhaid i chi sicrhau bod eich meddyg teulu wedi anfon atgyfeiriad i Dîm Rhywedd Cymru. Os ydych chi eisoes o dan ofal y Clinig Hunaniaeth Rywedd yn Charing Cross nid yw'r cam hwn yn angenrheidiol.

Os hoffech drafod pethau gyda chwnselydd mae hynny'n hollol iawn, a darperir y rhifau ffôn cyswllt isod.

Pan fyddwch yn barod i symud ymlaen, bydd angen i'ch meddyg teulu lenwi'r ffurflen atgyfeirio briodol.

## Cwnsela

Mae cynnig cwnsela yn rhan o'r broses o gadw a thrin ffrwythlondeb. Mae cwnsela ar gael i chi cyn, yn ystod ac ar ôl eich triniaeth.

Mae siarad yn rhydd mewn lleoliad tawel, cyfrinachol, anfeirniadol yn gallu bod yn amhrisiadwy gan eich helpu i wneud penderfyniadau am gadw ffrwythlondeb a thriniaeth yn y dyfodol.

## Datganiad cydraddoldeb

Mae'r GIG yn ymwneud â phobl. Y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r bobl sy'n ei ddarparu. Yn GIG Cymru mae gennym gyfrifoldeb tuag at ein cleifion, y cyhoedd a'n gilydd i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu ac aflonyddu, a meithrin cysylltiadau da. Mae pawb yn cyfrif! Mae'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol i sicrhau eu bod yn gymwys yn eu rhwymedigaethau o dan gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol.

Canmoliaeth, sylwadau a phryderon

Mae SFfC yn ymdrechu i ddarparu’r gofal a’r driniaeth unigol gorau i’n cleifion. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda’n gilydd a gwella bob amser. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau a fyddai, yn eich barn chi, yn gwella eich taith chi gyda ni yn ogystal â thaith chleifion y dyfodol.

Rydym yn deall y gallai fod pryderon gan gleifion am eu triniaeth neu’r gwasanaeth y maen nhw wedi’i dderbyn. Byddem yn eich annog i gysylltu â ni er mwyn i ni ddatrys y rhain cyn gynted ag y gallwn. Gwneir pob ymdrech i’ch helpu chi.

Os hoffech roi sylwadau neu drafod unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, cysylltwch â’n Rheolwr Ansawdd, Stephanie Herring, ar 029 2074 6668.

Manylion Cyswllt Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru

**Cyfeiriadau**

SFfC Caerdydd, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW

SFfC, Ysbyty CNPT, Ffordd Baglan, Port Talbot, SA12 7BX

**Rhifau Ffôn Caerdydd**

Derbynfa/Ymholiadau Cyffredinol: 029 2184 3047

Tîm Embryoleg: 029 2184 3558

Tîm Nyrsio: 029 2184 5102

Cwnsela: 029 2184 4341 (dydd Llun yn unig)

Cwnsela Brys: 01639 862077

**Rhifau Ffôn Castell-nedd Port Talbot**

Derbynfa/Ymholiadau Cyffredinol/Tîm Nyrsio 01639 862698

Cwnsela: 01639 862077

Nodiadau:

## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen We Hunaniaeth Rywedd GIG Cymru | www.genderidentity.wales.nhs.uk | |
| HFEA | www.hfea.gov.uk | 020 7291 8200 |
| Donor Conception Network | www.dcnetwork.org | 020 7278 2608 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth Stonewall Cymru | www.stonewallcymru.org.uk | 08000 50 20 20 |
| TransForm Cymru | www.youthcymru.org.uk/transform-project | 01443 827840 |
| Llinell Gymorth a Gwasanaeth Cwnsela LGBT Cymru | www.lgbtcymruhelpline.org.uk | 0800 840 2069 |
| Mermaids | www.mermaidsuk.org.uk | 0344 334 0550 |
| Mindline Trans+ | https://bristolmind.org.uk/help-and-counselling/mindline-transplus/ | 0300 300 5468 |
| Cyfarfod Cymdeithasol Traws - Caerdydd | www.facebook.com/groups/tsmucardiff | |
| Fertility Network UK | www.fertilitynetwork.org | 01424 732361 |
| Ymddiriedolaeth Terrence Higgins | www.tht.org.uk | |